## GORCHYMYN ARBROFOL (AMRYWIAD, CYFYNGIADAU AROS

## A MARCIAU 'YSGOL – CADWCH YN GLIR')

## (STRYDOEDD AMRYWIOL, PONT-Y-CLUN) 2025

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## DATGANIAD O'R RHESYMAU

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn y broses o ailddatblygu Ysgol Gynradd Pont-y-clun ar Goedlan y Palalwyf, Pont-y-clun. Yn rhan o'r amodau cynllunio ar gyfer yr ysgol yma, rhaid i'r Cyngor drafod gwelliannau i'r Briffordd Gyhoeddus fel sydd wedi'u hamlinellu yn y Datganiad Trafnidiaeth (Cyf Cynllunio: 21/1669/FUL).

Felly, mae'r Cyngor wedi adolygu'r asesiad trafnidiaeth annibynnol ac wedi datblygu cynigion a fydd yn gwella'r cysylltiadau cerdded ym Mhont-y-clun ac yn hyrwyddo teithio llesol ym Mhont-y-Clun ac o'i chwmpas.

Yn dilyn cyfnod o Ymgynghori Anffurfiol ar y cynigion yma, cafodd nifer o bryderon gan y cyhoedd eu codi, ac felly penderfynwyd y bydd y cynigion yma'n elwa o gyfnod ymgynghori hirach, tra'n caniatáu i'r ysgol agor.

Mae'r defnydd o gyfyngiad arbrofol hefyd yn rhoi cyfle i swyddogion weld yr effaith wirioneddol, ar y llwybrau cerdded a'r patrymau parcio sydd wedi'u sefydlu, o amgylch y cyfyngiadau arfaethedig.
Caiff y mesurau yma eu cynnig o dan Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984 i gynnal a gwella diogelwch priffyrdd a cherddwyr o amgylch y datblygiad ysgol newydd ar Goedlan y Palalwyf, Pont-y-clun.

## RHONDDA CYNON TAFF COUNTY BOROUGH COUNCIL

## (VARIOUS STREETS, PONTYCLUN)

## EXPERIMENTAL (VARIATION, WAITING RESTRICTIONS

## AND 'SCHOOL KEEP CLEAR' MARKINGS) ORDER 2025

## STATEMENT OF REASONS

The Council is currently in the process of redeveloping Pontyclun Primary school on Palalwyf Avenue, Pontyclun. As part of the planning conditions for this school, the Council must consider improvements to the Public Highway as outlined within the Transport Statement (Planning Ref: 21/1669/FUL).

The Council has therefore reviewed the independent transport assessment and developed proposals which will improve the walking links in Pontyclun and promote active travel in and around Pontyclun.

Following a period of Informal Consultation on these proposals, there were a number of concerns raised by the public and therefore, it has been decided that these proposals will benefit from a longer consultation window, whilst allowing for the school to open.

The use of an experimental restriction also affords officers the opportunity to observe the real impact, on both the established walking routes and parking patterns, surrounding the proposed restrictions.
These measures are proposed under the Road Traffic Regulations Act 1984 to maintain and improve highway and pedestrian safety surrounding the new school development on Palalwyf Avenue, Pontyclun.